# Adroddiad chwythu'r chwiban blynyddol 2022-23

Dull Ofcom o reoli datgeliadau chwythu'r chwiban allanol a chrynodeb o ddatgeliadau yn 2022-23

Cyhoeddwyd 21 Medi 2023

# Cynnwys

## Adran


Trosolwg ..... 3

Cefndir ..... 4

Datgeliadau chwythu'r chwiban ..... 7

Casgliad ..... 11

# Trosolwg

## Gair am yr adroddiad hwn

Dyma ail adroddiad annibynnol Ofcom ar ddatgeliadau chwythu'r chwiban a wnaed i Ofcom fel y 'Person Rhagnodedig' perthnasol. Dynodwyd Ofcom fel y 'Person Rhagnodedig' ar gyfer datgeliadau chwythu'r chwiban ar faterion sy'n ymwneud â:

- darpariaeth rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebiadau electronig a defnydd o'r sbectrwm electromagnetig;
- darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio;
- llwyfannau rhannu fideos;
- gwasanaethau post;
- rheolaeth a pherchnogaeth y cyfryngau; a
- chystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfathrebu.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban rydym wedi'u derbyn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Cawsom 50 datgeliad chwythu'r chwiban i gyd. Roedd 40 ohonynt yn ddatgeliadau chwythu'r chwiban (cafodd un achos ei ddwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol) ac roedd 10 yn ddatgeliadau ehangach. Rydym yn ystyried y rhain yn fanylach o ddechrau tudalen 7 ymlaen.

Mae Ofcom wedi adrodd yn flynyddol ar nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban ers dechrau blwyddyn ariannol 2014-15 yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom.

## Gwybodaeth am Ofcom

Ofcom yw rheoleiddiwr ac awdurdod cystadleuaeth diwydiannau cyfathrebiadau'r DU. Rydym yn rheoleiddio telathrebu llinell sefydlog a symudol, darllediadau teledu a radio, gwasanaethau fideo ar-alw, gwasanaethau post, llwyfannau rhannu fideos sydd wedi'u lleoli yn y DU a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio.

Rydym yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, ac mae ein dyletswyddau wedi'u nodi mewn statud, sy'n golygu ein bod yn atebol i Senedd y DU.[1]

Ein prif ddyletswydd yw 'hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol'.[2]

[1] Mae Ofcom yn gweithredu o dan nifer o Ddeddfau Seneddol gan gynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau yr Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.
[2] Deddf Cyfathrebiadau 2003, Adran 3(1).

# Cefndir

## Rhwymedigaethau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ("y Ddeddf")[3] yn darparu gwarchodaeth gyfreithiol i weithwyr sy'n datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwr. Mae Ofcom yn 'Berson Rhagnodedig' o dan y Ddeddf. Mae hyn yn golygu y gallai pobl elwa o amddiffyniadau'r Ddeddf drwy gyflwyno eu datgeliad chwythu'r chwiban i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â'r canlynol:

(a) darpariaeth rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebiadau electronig a defnydd o'r sbectrwm electromagnetig;

(b) darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio;

(c) rheoli a bod yn berchen ar gyfryngau;

(d) cystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfathrebu;

(e) llwyfannau rhannu fideos (ers 4 Ionawr 2023); a

(f) gwasanaethau post (hefyd ers 4 Ionawr 2023).

Gall pobl hefyd elwa o warchodaeth y Ddeddf drwy gyflwyno eu datgeliad chwythu'r chwiban i Ofcom ar faterion eraill sydd o fewn cylch gwaith Ofcom, er enghraifft ar wasanaethau post a llwyfannau rhannu fideos a wnaed cyn 4 Ionawr 2023. Rydym yn trafod y darpariaethau datgeliadau ehangach o dan y Ddeddf yn fanylach isod ac ar dudalen 7. Nid oes gan Ofcom unrhyw rôl o ran penderfynu a yw gwarchodaeth y Ddeddf yn berthnasol (byddai hyn yn fater i Dribiwnlys Cyflogaeth) ac nid yw'n ymwneud ag agweddau ar ddatgeliadau chwythu'r chwiban sy'n ymwneud â chyflogaeth.

Mae gan Ofcom nifer o rwymedigaethau fel Person Rhagnodedig,[4] gan gynnwys rhwymedigaeth i adrodd yn flynyddol, a'r gofyniad i weithredu mewn modd sy'n cadw cyfrinachedd ac anhysbysedd yr unigolyn sy'n gwneud y datgeliad. Yn aml, bydd chwythwr chwiban am warchod ei hunaniaeth oherwydd ei fod yn teimlo'n fregus wrth godi'r mater gyda'i gyflogwr, neu efallai ei fod eisoes wedi codi'r mater yn fewnol a'i fod yn teimlo nad yw wedi cael ei drin yn briodol.

### Datgeliadau ehangach

Nid yw'r rhestr o faterion y mae Ofcom yn Berson Rhagnodedig ar eu cyfer o reidrwydd yn cynnwys holl swyddogaethau rheoleiddio Ofcom. Mae'n dal yn bosib y bydd Ofcom yn asesu materion sydd y tu allan i gwmpas rhwymedigaethau Ofcom fel Person Rhagnodedig fel Datgeliadau Ehangach os ydynt yn dod o fewn cylch gwaith Ofcom.

Nid oedd gwasanaethau post na llwyfannau rhannu fideos yn dod o dan gwmpas y dynodiad Person Rhagnodedig ar gyfer Ofcom tan fis Ionawr 2023. Bu Ofcom yn cysylltu ag adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU i ddiwygio'r offeryn statudol sy'n dynodi cylch gwaith Ofcom fel Person Rhagnodedig i gynnwys gwasanaethau post a llwyfannau rhannu fideos. Ar 4

[3] Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.
[4] Person Rhagnodedig - yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol – Atodlen 1 i Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014/2418.

Ionawr 2023, daeth y diwygiad hwn i rym a chafodd datgeliadau yn y sectorau gwasanaethau post a llwyfannau rhannu fideos post eu cyfrif fel datgeliadau gwarchodedig o’r dyddiad hwn ymlaen.[5] Rydym yn trafod y darpariaethau datgeliadau ehangach o dan y Ddeddf yn fanylach ar dudalen 7.

## Gair am yr wybodaeth a dderbyniwn

Mae gwybodaeth am chwythu’r chwiban ar gael ar dudalen we Ofcom am chwythu’r chwiban[6] ac mae’n bosibl i chwythwyr chwiban wneud datgeliadau i Ofcom drwy ddefnyddio ffurflen we ar-lein,[7] dros y ffôn, neu drwy ysgrifennu i’r cyfeiriad canlynol:

Tîm Cyswllt Defnyddwyr (Chwythu’r Chwiban)
PO Box 1285
Warrington
WA1 9GL

0300 123 3333 neu 020 7981 3040

Mae datgeliadau chwythu’r chwiban yn ein helpu i reoleiddio’r sectorau sy’n dod o fewn ein cwmpas. Mae’r wybodaeth rydym yn ei derbyn yn gallu darparu cipolwg gwerthfawr am y sefydliadau perthnasol a’r sectorau diwydiant yn gyffredinol. Gallai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau polisi yn y dyfodol a gallai arwain at ymchwiliad gorfodi.

Mae gennym amrywiol opsiynau o ran sut i ymateb i wybodaeth a ddarperir gan chwythwyr chwiban. Ar ôl cael datgeliad gan chwythwr chwiban, byddwn yn cynnal asesiad cychwynnol ynghylch a yw’r datgeliad yn codi pryderon ynghylch cydymffurfiad cwmni â’i rwymedigaethau rheoleiddio neu gystadleuaeth fel y dylai Ofcom ymchwilio ymhellach, yn unol â’n Canllawiau Gorfodi.[8]

Mae nifer o gamau/canlyniadau posibl. Gallwn wneud y canlynol:

- **ceisio casglu rhagor o wybodaeth** cyn dod i benderfyniad ynghylch a ddylid ymchwilio ai peidio. Gall hyn olygu cysylltu â’r sefydliad neu’r unigolyn sy’n destun yr honiadau. Ni fyddem yn datgelu pwy yw’r chwythwr chwiban na’i fanylion heb ei ganiatâd.[9]
- **penderfynu agor ymchwiliad**. Byddem yn dilyn y gweithdrefnau arferol a nodir yn ein Canllawiau Gorfodi, sy’n cynnwys cyhoeddi hysbysiad agoriadol ar ein gwefan. Efallai y byddwn yn penderfynu agor ymchwiliad pan fyddwn yn credu bod yr wybodaeth a ddarperir yn codi pryderon credadwy ynghylch cydymffurfiad cwmni â’i rwymedigaethau rheoleiddio neu gystadleuaeth.
- **mynd i’r afael â’r honiadau heb agor ymchwiliad ffurfiol**. Gall hyn olygu ysgrifennu at y sefydliad neu’r unigolyn i’w atgoffa o unrhyw ofynion rheoleiddio perthnasol. Mewn achosion eraill, gallwn ddefnyddio’r wybodaeth a ddarperir gan chwythwr chwiban i gefnogi prosiectau eraill a gweithgareddau monitro.

---

[5] Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) (Diwygio) (Rhif 2) 2022.
[6] Ofcom, Gweithdrefn chwythu'r chwiban ar gyfer datgelu.
[7] Ofcom, Gweithdrefn chwythu'r chwiban ar gyfer datgelu.
[8] Canllawiau Gorfodi Ofcom.
[9] Ni allwn warantu anhysbysedd, oherwydd ei bod hi’n bosibl i gyflogwr adnabod chwythwr chwiban yn annibynnol.

- **trosglwyddo gwybodaeth y chwythwr chwiban i reoleiddiwr mwy priodol,** er enghraifft os yw'r ymddygiad yn ymwneud â sector nad yw Ofcom yn ei reoleiddio.
- **penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach**. Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod Ofcom yn ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law. Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio ai peidio, rydym yn ystyried pa mor dda rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i warchod budd y cyhoedd.

Nid ydym yn cynnig cyngor i chwythwyr chwiban ynghylch pa warchodaeth a gynigir iddynt. Er na allwn gynnig cyngor cyfreithiol, mae ffynonellau cymorth eraill, fel:

- Protect, yr elusen chwythu'r chwiban;
- ACAS;
- Cyngor ar Bopeth; ac
- Undeb llafur y chwythwr chwiban, os yw'n aelod o un.

Mae'r darpariaethau chwythu'r chwiban o dan y Ddeddf yn gwarchod unrhyw 'weithiwr' sy'n gwneud 'datgeliad gwarchodedig' o wybodaeth, rhag cael ei ddiswyddo neu ei gosbi gan ei gyflogwr oherwydd y datgeliad. Gellir gorfodi hyn drwy Dribiwnlys Cyflogaeth. Ni all Ofcom benderfynu a yw datgeliad yn gymwys i gael ei warchod nac ymyrryd mewn cysylltiadau cyflogaeth. Dylai chwythwyr chwiban ofyn am gyngor gan un o'r cyrff a nodir uchod os oes ganddynt unrhyw bryderon penodol. Gall chwythwyr chwiban hefyd ofyn am gyngor cyfreithiol gan berson sydd â'r cymwysterau priodol, megis cyfreithiwr.

Byddwn yn trin unrhyw wybodaeth a roddir i ni mewn modd sensitif a chyfrifol. Byddwn yn cyfyngu gwybodaeth ynghylch pwy yw'r chwythwr chwiban i nifer fach iawn o bobl, ac ni fyddem yn datgelu'r wybodaeth honno oni bai fod rheidrwydd cyfreithiol arnom i wneud hynny, er enghraifft gan farnwr mewn llys barn. Fodd bynnag, hyd yn oed os gwnawn ein gorau glas i gelu pwy yw'r chwythwr chwiban, ni allwn warantu anhysbysedd, oherwydd ei bod hi'n bosibl i'r cyflogwr allu ei adnabod yn annibynnol.

# Datgeliadau chwythu'r chwiban

**Crynodeb o'r 50 datgeliad a dderbyniom yn 2022-23:**

- 40 datgeliad chwythu'r chwiban;
- 10 datgeliad ehangach; ac
- ni throsglwyddwyd unrhyw ddatgeliad i Berson Rhagnodedig arall.

O'r 40 datgeliad chwythu'r chwiban:

- cafodd 1 ei ddwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol, ac roedd yn dal i gael ei asesu ar ddiwedd y flwyddyn;
- roedd 4 yn dal i gael eu hasesu ar ddiwedd y flwyddyn;
- cafodd 36 eu cau yn ystod 2022-23; ac
- ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau gorfodi o ganlyniad i ddatgeliad yn ystod 2022-23.

Cafodd yr holl ddatgeliadau ehangach eu cau yn 2022-23.

## Mathau o ddatgeliadau chwythu'r chwiban

### Datgeliadau chwythu'r chwiban i Bersonau Rhagnodedig

Er mwyn gwarchod datgeliad i Berson Rhagnodedig, rhaid i'r gweithiwr sy'n gwneud y datgeliad gredu'r ddwy elfen isod yn rhesymol:

- bod y camwedd yn dod o fewn cylch gwaith y Person Rhagnodedig dan sylw; a
- bod yr wybodaeth a ddatgelir ac unrhyw honiad sydd ynddi yn wir i raddau sylweddol.[10]

### Datgeliadau ehangach

Nid yw'r rhestr o faterion y mae Ofcom yn Berson Rhagnodedig ar eu cyfer o reidrwydd yn cynnwys holl swyddogaethau rheoleiddio Ofcom.

Cyn 4 Ionawr 2023, nid oedd gwasanaethau post a llwyfannau rhannu fideos yn dod o dan gwmpas y dynodiad Person Rhagnodedig ar gyfer Ofcom, nes y diwygiwyd is-ddeddfwriaeth, a daeth hyn i rym ar 4 Ionawr 2023.[11] Roeddem wedi derbyn cwynion chwythu'r chwiban mewn perthynas â materion o'r fath (gwasanaethau post a llwyfannau rhannu fideos) o dan ddarpariaethau datgeliadau ehangach y Ddeddf tan y dyddiad hwn. Ar ôl 4 Ionawr 2023, roeddem yn derbyn y datgeliadau hyn fel datgeliadau chwythu'r chwiban.

Er mwyn i ddatgeliad ehangach gael ei dderbyn, bydd angen i'r gweithiwr sy'n datgelu hefyd ddangos (ymysg pethau eraill) ei fod wedi datgelu'r un wybodaeth i raddau sylweddol i'w gyflogwr neu i Berson Rhagnodedig o'r blaen, neu ei fod yn credu'n rhesymol y byddai fel arall wedi dioddef niwed neu y byddai tystiolaeth berthnasol wedi cael ei dinistrio.[12]

[10] Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, Adran 1.
[11] Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) (Diwygio) (Rhif 2) 2022.
[12] Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, Adran 1.

Er bod y meini prawf asesu y mae'n rhaid i Ofcom eu dilyn i dderbyn datgeliad ehangach yn wahanol, mae'r warchodaeth a gynigir gan Ofcom o ran cyfrinachedd ac anhysbysedd yr un fath â datgeliad chwythu'r chwiban a wneir i Ofcom yn ei rôl fel Person Rhagnodedig. Hefyd, mae'r warchodaeth o dan y Ddeddf i'r chwythwr chwiban yr un fath ar gyfer datgeliad ehangach ag y mae ar gyfer datgeliad i Berson Rhagnodedig.[13]

# Nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban

Derbyniodd Ofcom 50 achos o chwythu'r chwiban yn 2022-23:

- roedd 40 datgeliad chwythu'r chwiban yn dod o fewn cwmpas Ofcom fel Person Rhagnodedig;
- roedd deg datgeliad ehangach y tu allan i gwmpas uniongyrchol Ofcom fel Person Rhagnodedig; ac
- ni throsglwyddwyd unrhyw ddatgeliad chwythu'r chwiban i Berson Rhagnodedig arall.

## Datgeliadau gwarchodedig

### Datgeliadau gwarchodedig – y camau a gymerwyd

Yn 2022-23, derbyniom 40 datgeliad chwythu'r chwiban a chaewyd 36. Ar ôl asesiad cychwynnol, caewyd mwyafrif (34) yr achosion hyn heb fod angen ymgysylltu â chyflogwr y chwythwr chwiban. Roedd pedwar datgeliad chwythu'r chwiban yn dal i gael eu hasesu ar 31 Mawrth 2023.

| Achos datgeliad chwythu'r chwiban | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau chwythwr chwiban yn ôl y camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| **Achosion agored** | Ymholiadau parhaus | 4 |
| | Ymchwiliad Gorfodi Parhaus | 0 |
| **Achosion wedi'u cau** | Dim cyswllt â'r cyflogwr - dim angen gweithredu | 10 |
| | Cyswllt uniongyrchol â'r cyflogwr – dim camau pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol | 0 |
| | Cyswllt Uniongyrchol â'r cyflogwr – wedi cymryd camau pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol, ond dim camau gorfodi | 2 |
| | Monitro Gweithredol | 24 |
| | Ymchwiliad Gorfodi – heb ganfod achos o dorri rheoliadau | 0 |

[13] Er mwyn cael eu trin fel 'datgeliad gwarchodedig' o dan y Ddeddf, bydd angen i ddatgeliadau chwythu'r chwiban (pa un a ydynt yn cael eu gwneud i Berson Rhagnodedig ac o dan ddarpariaethau datgeliadau ehangach y Ddeddf), fod yn gymwys i gael eu gwarchod. Mae datgeliadau cymwys yn cael eu diffinio yn adran 43B o Ddeddf 1998.

| Achos datgeliad chwythu'r chwiban | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau chwythwr chwiban yn ôl y camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| | Ymchwiliad Gorfodi – wedi canfod achosi o dorri rheoliadau | 0 |
| **CYFANSWM** | | 40 |

## Datgeliadau gwarchodedig yn ôl sector diwydiant

O'r 40 datgeliad chwythu'r chwiban gwarchodedig a dderbyniom, roedd 26 yn deillio o'r sector post, roedd 13 yn deillio o'r sector Cyfathrebu, gydag un ohonynt yn dod o dan bwerau cyfraith cystadleuaeth gydredol Ofcom, ac un o'r sector darlledu.

| Sector | Datgeliadau chwythu'r chwiban yn ôl sector |
|---|---|
| **Darlledu** | 1 |
| **Cyfathrebiadau** | 13 |
| **Sbectrwm** | 0 |
| **Post** | 26 |
| **Llwyfannau Rhannu Fideos** | 0 |
| **CYFANSWM** | 40 |

## Nifer y datgeliadau ehangach

Cawsom 10 datgeliad ehangach yn 2022-23, i gyd gan y sector post.

## Datgeliadau ehangach – y camau a gymerwyd

Yn 2022-23, derbyniom a chaeom ddeg datgeliad ehangach. Ar ôl asesiad cychwynnol, caewyd yr holl achosion hyn heb fod angen ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwr y chwythwr chwiban.

| Achos datgelu ehangach | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau ehangach yn ôl y camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| **Achosion agored** | Ymholiadau parhaus | 0 |
| | Ymchwiliad Gorfodi Parhaus | 0 |
| **Achosion ar gau** | Dim Cyswllt â'r cyflogwr - Dim angen gweithredu | 0 |
| | Cyswllt Uniongyrchol â'r cyflogwr – Dim camau pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol | 0 |

| Achos datgelu ehangach | Y camau a gymerwyd | Datgeliadau ehangach yn ôl y camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| | Cyswllt Uniongyrchol â'r cyflogwr – Wedi cymryd camau pellach ar ôl yr Asesiad Cychwynnol, ond dim camau gorfodi | 0 |
| | Monitro gweithredol | 10 |
| | Ymchwiliad Gorfodi – Heb ganfod achos o dorri rheoliadau | 0 |
| | Ymchwiliad Gorfodi – Wedi canfod achosi o dorri rheoliadau | 0 |
| **CYFANSWM** | | 10 |

## Datgeliadau ehangach yn ôl sector

Daeth yr holl ddatgeliadau ehangach o'r sector post. Roedd yr holl ddatgeliadau ehangach hyn wedi dod cyn diwygio'r is-ddeddfwriaeth, a ddaeth i rym ar 4 Ionawr 2023.

| Sector | Datgeliadau ehangach yn ôl sector |
|---|---|
| **Gwasanaethau post** | 10 |
| **Llwyfannau Rhannu Fideos** | 0 |
| **CYFANSWM** | 10 |

# Nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a drosglwyddwyd i Berson Rhagnodedig arall

Ni dderbyniom unrhyw ddatgeliad chwythu'r chwiban yn ystod 2022-23 a nodwyd gennym fel un yr oedd yn briodol ei drosglwyddo i Berson Rhagnodedig arall.

# Casgliad

Mae datgeliadau chwythu'r chwiban yn gallu bod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth sy'n cefnogi ein prif ddyletswydd sef 'hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn perthynas â materion yn ymwneud â chyfathrebiadau, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol'.[14]

Ym mlwyddyn ariannol 2022-23, ehangodd dynodiad Ofcom fel Person Rhagnodedig i gynnwys gwasanaethau post a llwyfannau rhannu fideos. Yn y dyfodol, os bydd cylch gwaith rheoleiddio Ofcom yn ymestyn i sectorau eraill, er enghraifft pan fydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn cael ei basio, rydym yn rhagweld efallai y byddwn yn gofyn am ddiwygio pellach i'r offeryn statudol i gynnwys sectorau newydd o fewn dynodiad Ofcom fel Person Rhagnodedig.

Derbyniom nifer o ddatgeliadau chwythu'r chwiban a datgeliadau ehangach am un mater penodol ar gyfer y sector post ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Effeithiodd yr un mater hwn ar y ffigurau adrodd ar gyfer y sector hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod, yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, wedi cynnal nifer o asesiadau ar ddatgeliadau chwythwyr chwiban a datgeliadau ehangach. Ni wnaethom agor ymchwiliad gorfodi na chymryd camau penodol yn erbyn cyflogwr. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir i wneud penderfyniadau polisi ar sail gwybodaeth ddyfnach, a, lle bo hynny'n briodol, i gymryd camau gorfodi ehangach.

[14] Cynllun Gwaith Ofcom 2023–24, para.3.1.